**EITEM AR YR AGENDA: 6**

**PANEL GWEITHREDOL**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDDCYMRU**

**11 Mai 2015**

**DIWEDDARIAD YNGHYLCH GWEITHGOR Y CYNLLUN GWELLA**

**Adroddiad gan Dawn Docx, Dirprwy Brif Swyddog Tân**

**Diben yr Adroddiad**

1 Rhoi gwybod i'r Aelodau am hynt Gweithgor y Cynllun Gwella.

**Cefndir**

2 Dan Fesur Llywodraeth Leol 2009, mae'n ofynnol i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, fel un o'r Awdurdodau Gwella Cymreig, wneud y canlynol:

- penderfynu ar ei amcanion gwella ei hun dan unrhyw un o saith elfen sydd wedi eu diffinio ar gyfer gwella. Er bod gofyn iddo osod amcanion gwella bob blwyddyn, nid yw hynny'n golygu bod yn rhaid i'r amcanion newid bob blwyddyn, nac ychwaith fod yn rhaid eu cyflawni o fewn blwyddyn;

- cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar ei amcanion am gyfnod o amser. Nid oes amser penodol ar gyfer ymgynghoriadau, ond rhyw 12 wythnos y maent yn ei bara fel arfer. Rhaid i'r ymgynghoriadau gael dyddiad cychwyn a dyddiad cau pendant.

3 Er mwyn datblygu amcanion gwella'r Awdurdod ar gyfer 2016-17, mae Gweithgor y Cynllun Gwella wedi cynnal tri chyfarfod, sef ar 2 Mawrth, 23 Mawrth a 27 Ebrill 2015.

**Gwybodaeth**

4 Yn y tri chyfarfod a gynhaliwyd gan weithgor y Cynllun Gwella eleni, cafodd yr aelodau gyflwyniadau a gwybodaeth ar adolygiad risgiau'r Gwasanaeth ar gyfer Gogledd Cymru. Roedd hyn yn golygu dadansoddi data digwyddiadau am y cyfnod rhwng Ebrill 2009 a Mawrth 2014 a'i gymhwyso fel rhan o fformiwla risg sy'n cynnwys gwybodaeth o Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Mae hyn wedi galluogi swyddogion i gategoreiddio lefel y risg ledled Gogledd Cymru.

5 Nodwyd bod yr ardaloedd â risg uwch i'w cael ledled y Gogledd, nid dim ond yn y trefi mawr a'r canolfannau poblogaeth. Felly, daeth y gweithgor i'r casgliad fod angen i adnoddau gofal tân gyfateb i ardaloedd â'r risg mwyaf.

6 Roedd cyflwyniadau pellach yn ymdrin â dadansoddiad o'r holl ddigwyddiadau rhwng Ebrill 2009 a Mawrth 2014 gan gynnwys tanau mewn anheddau, tanau ar safleoedd masnachol a gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd. Roedd y dadansoddiad hwn yn dangos yr amrywiad o ran amser a thymor pryd y bu'r digwyddiadau hyn yn hanesyddol. Arweiniodd hyn at drafodaeth helaeth ynghylch ffyrdd o wneud y defnydd gorau o'r adnoddau er mwyn ateb y risg, yn enwedig nawr fod yr Awdurdod yn gweithredu gyda llai o gyllideb.

7 Atgoffwyd yr Aelodau am yr heriau sy'n gysylltiedig â darparu gofal tân gan ddefnyddio'r system dyletswydd RDS, sydd yn gynyddol yn methu ag adlewyrchu'r modd y mae pobl yn byw eu bywydau yn yr 21ain ganrif. Roedd gwybodaeth ynglŷn â recriwtio a chadw yn cefnogi'r achos dros grwpio gorsafoedd yn glystyrau o ddwy neu dair gorsaf er mwyn sicrhau bod o leiaf un gorsaf yn gallu bod ar gael ar adegau pan fo'r risg yn isel, gyda rhagor ar gael ar adegau pan fo'r risg yn uwch, sef ddiwedd y prynhawn a gyda'r nos fel arfer.

8 Yn olaf, trafodwyd agweddau ehangach ar ddiogelwch cymunedol. Roedd yr Aelodau'n cefnogi'r syniad o edrych lle gall yr Awdurdod gynorthwyo i reoli galw ymhob rhan o'r sector cyhoeddus, ac roeddent yn teimlo ei bod yn bwysig edrych ar ffyrdd o ehangu rôl diffoddwyr tân.

## Argymhellion

9 Argymhellir bod yr aelodau'n:

(i) nodi hynt Gweithgor y Cynllun Gwella;
(ii) cefnogi'r cysyniad o ddarparu diffoddwyr tân mewn modd hyblyg i gyfateb i lefelau risg;
(iii) annog yr Awdurdod Tân ac Achub i edrych ar agweddau ehangach ar ddiogelwch cymunedol.